



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymateb y Llywodraeth:

Ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol

Rhagfyr 2012

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog dros Bobl Anabl	3
Yr Ymgynghoriad	5
Pennod 1 Crynodeb gweithredol	6

Rhagair gan y Gweinidog dros Bobl Anabl

Gwnaed cynnydd sylweddol iawn dros y ddau ddegawd diwethaf o ran rhoi dewis gwirioneddol i bobl anabl a rheolaeth dros y ffordd y cânt eu cefnogi i fyw'n annibynnol a chwarae rhan lawn mewn cymdeithas. Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol wedi gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith hwn, gan ddarparu tystiolaeth i ddangos y gallai pobl anabl, yn cynnwys y rheini ag anghenion cymorth uchel iawn, sicrhau canlyniadau gwell drwy reoli eu trefniadau gofal eu hunain.

Ond, fel y nodwyd yn ein dogfen ymgynghori ar ddyfodol y Gronfa, yn sgil newidiadau yn y system gymorth ehangach i bobl anabl, cwestiynwyd effeithlonrwydd ariannu rhywfaint o'r gofal a'r cymorth a roddir i un grŵp o bobl anabl neu'r cyfan drwy ffrwd ariannu ar wahân. Cynigiodd y Llywodraeth y dylid cau'r Gronfa yn 2015, gan ddatganoli cyllid i lywodraeth leol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban. Y rhesymeg dros y cynnig hwnnw oedd y gellid diwallu anghenion defnyddwyr presennol mewn ffordd fwy cyson ac effeithiol o fewn un system gydlynol, ac na fyddai gweithredu'r Gronfa fel gweithrediad cymynrodd yn gynaliadwy.

Roeddwn yn falch o weld ymateb mor gryf i'r ymgynghoriad gan ystod eang o unigolion, sefydliadau ac awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig. Dywedasoeh wrthym fod y cymorth a roddir gan y Gronfa yn chwarae rhan bwysig iawn ym mywydau defnyddwyr a'u teuluoedd, a bod pryder gwirioneddol y byddai cau'r gronfa yn golygu na all defnyddwyr fyw bywydau llawn ac annibynnol. Ond clywsom hefyd am broblemau gyda'r Gronfa, a bod y trefniant presennol yn ei gwneud hi'n anodd i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cefnogi pob person anabl mewn ffordd gyson. Gwyddom fod gan y rheini sy'n defnyddio arian y Gronfa ystod eang o anghenion, a bod y cydbwysedd rhwng y cymorth a roddir gan y Gronfa a'r cymorth a roddir gan awdurdodau lleol yn aml yn dibynnu ar pryd y gwnaeth defnyddwyr gais i'r Gronfa a ble maent yn byw. Clywsom mai lefel y cymorth a roddir yw'r peth pwysicaf i lawer o unigolion a sefydliadau â diddordeb, nid pwy sy'n ei roi.

Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad yn ofalus. Deallaf bryderon defnyddwyr, ond nid wyf yn credu bod y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Ni ellid cyfiawnhau parhau i gynorthwyo'r bobl anabl hynny a oedd yn defnyddio'r Gronfa pan oedd ar gau i geisiadau newydd, mewn ffordd wahanol i bobl anabl eraill ag anghenion tebyg.

Erys ein hymrwymiad i gynnal dyfarniadau cyfredol hyd at 2015. Ym mis Ebrill 2015, bydd y Gronfa yn cau ac wedi hynny, awdurdodau lleol yn Lloegr, yn unol â'u cyfrifoldebau statudol, fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth cymwys defnyddwyr presennol y Gronfa. Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon yn pennu sut y caiff defnyddwyr ym mhob un o'r rhannau hynny o'r DU eu cefnogi o fewn eu priod systemau gofal a chymorth.

4 Rhagair gan y Gweinidog dros Bobl Anabl

Bydd sicrhau proses bontio lwyddiannus yn hanfodol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol a'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn nodi sut y gallwn gynorthwyo defnyddwyr drwy'r cyfnod pontio, a bydd yn parhau i wneud hynny. Er mwyn llywio awdurdodau lleol unigol, bydd y Llywodraeth, y Gronfa a'r sector gofal cymdeithasol yn Lloegr yn cyd-lunio a chyhoeddi Cod Ymarfer a fydd yn rhoi canllawiau ar sut y gellir cynorthwyo defnyddwyr y Gronfa drwy'r cyfnod pontio i system gofal a chymorth awdurdod lleol unigol.

Ar ddechrau 2013, bydd y Gronfa yn cyhoeddi cynllun pontio a fydd yn nodi sut y caiff defnyddwyr eu cynorthwyo dros y ddwy flynedd nesaf wrth baratoi ar gyfer y broses drosglwyddo. Bydd hyn yn cynnwys sut y bydd rhaglen adolygu yn sicrhau y caiff manylion trefniadau gofal eu caffael a'u rhannu gyda'u hawdurdodau lleol, a sut y caiff y defnyddwyr hynny nad ydynt yn cael unrhyw arian gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd eu helpu i fod yn rhan o'r system gofal brif ffrwd. Bydd ymgysylltu'n barhaus â defnyddwyr a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl yn hanfodol: ar ddechrau 2013, bydd y Gronfa'n dechrau rhaglen helaeth o ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid ar y cynlluniau trosglwyddo.

Gwn y bydd defnyddwyr yn pryderu rhywfaint ynghylch y dyfodol, ond rhoddaf sicrwydd iddynt bod y Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod y broses hon yn addas iddynt hwy, ac i sicrhau y gallant barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant wneud hynny rhwng nawr a 2015 ac yn y dyfodol.



Esther McVey AS

Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Gweinidog Pobl Anabl

Yr Ymgynghoriad

1. Ar 12 Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth Dyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol, sef ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn nodi'r cynnig i gau'r Gronfa yn 2015 a datganoli cyllid i lywodraeth leol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban.
2. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 12 Hydref 2012. Roeddem yn falch o gael tua 2,000 o ymatebion gan ystod eang a chynrychioliadol o ddefnyddwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau ac unigolion eraill â diddordeb.
3. Yn ystod ymgynghoriad yr Adran Gwaith a Phensiynau, ar y cyd â'r Gronfa, cynhaliwyd 14 o ddiwyddiadau ledled y DU ar gyfer defnyddwyr y Gronfa, eu gofalwyr, cynorthwywyr personol a chynrychiolwyr. Yn ogystal â'r digwyddiadau hyn, trefnwyd pum digwyddiad ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol mewn lleoliadau ledled y DU gan gyfarfod â nifer o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol a chyrrff cynrychioliadol unigol er mwyn trafod ein cynigion yn fanwl.

Strwythur y ddogfen hon

4. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi'r prif bwyntiau a wnaed gan ymatebwyr ac yn nodi ymateb y Llywodraeth iddynt.
5. Ni wnaeth pob ymatebydd ddewis ateb y cwestiynau penodol a ofynnwyd; roedd yn well gan rai pobl fynegi eu barn ar y cynnig yn gyffredinol. Lle y bo'n bosibl, rydym wedi ceisio cynnwys yr ymatebion hyn yn yr adrannau priodol. Mae'r ymatebion nad oedd modd eu cynnwys yn hawdd o dan y cwestiynau penodol wedi'u crynhoi o dan "Sylwadau eraill a wnaed".
6. Mae'r ymgynghoriad Dyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol a'r ymateb hwn ar gael yn: <http://www.dwp.gov.uk/consultations/2012/future-of-ilf.shtml>
7. Os hoffech gael yr ymateb hwn mewn fformat penodol, er enghraifft, print bras, Braille, fformat sain neu Hawdd ei Ddarllen, cysylltwch â:

ILF Consultation Team
Ground Floor Caxton House
Tothill Street
London
SW1H 9NA

Crynodeb gweithredol

1

Cyflwyniad

1. Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol (y Gronfa) yn un o Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gan weithredu fel ymddiriedolaeth yn ôl disgrisiwn, mae'n rhoi arian i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol, ond y tu allan i'r system gofal a chymorth brif ffrwd. Caiff bron holl ddefnyddwyr y Gronfa gymorth gan y ddwy system, ond o dan systemau cymhwyster a thaliadau gwahanol.
2. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa yn darparu taliadau i 19,136 o bobl anabl. Diben y taliadau hyn yw helpu i brynu gwasanaethau gofal a chymorth, gan amlaf drwy gyflogi gofalwyr neu gynorthwyywyr personol. Mae'r llwyth achosion yn cynnwys defnyddwyr Grŵp 1, a wnaeth gais i'r Gronfa wreiddiol a sefydlwyd yn 1988, a defnyddwyr Grŵp 2 a wnaeth gais am arian gan y Gronfa ar ôl ei hadlunio yn 1993. Mae 3,008 o ddefnyddwyr yn perthyn i Grŵp 1 a 16,128 o ddefnyddwyr yn perthyn i Grŵp 2. Y gwahaniaeth allweddol yw bod gan ddefnyddwyr Grŵp 2 becynnau gofal sy'n cynnwys o leiaf £200 yr wythnos a gyfrennir gan eu hawdurdod lleol. Er bod rhai defnyddwyr yng Ngrŵp 1 yn cael rhywfaint o gymorth gan eu hawdurdod lleol, nid oedd y mewnbwn hwn yn rhan o'u meini prawf cymhwysedd pan wnaethant gais i'r Gronfa, ac mae'r cytundeb cymynrodd hwn wedi'i gynnal ers 1993.
3. Yn 2010, penderfynodd y Llywodraeth gau'r Gronfa i ddefnyddwyr newydd. Bu'n amlwg ers cryn amser fod datblygiadau o ran y modd y câi gofal a chymorth eu darparu wedi golygu na ellid cyflawni amcanion y Gronfa o fewn y system gofal a chymorth brif ffrwd mewn ffordd a oedd yn fwy teg, cyson ac ymatebol i anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i ddiogelu pecynnau gofal defnyddwyr presennol hyd at 2015, ac i ymgynghori ar sut y byddent yn cael eu cefnogi ar ôl hynny. Lanswyd yr ymgynghoriad ar 12 Gorffennaf, gan gynnig y dylid cau'r Gronfa yn 2015 a datganoli cyllid i lywodraeth leol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

4. Mae'r ymatebion gan unigolion, yn bennaf gan ddefnyddwyr y Gronfa a'u gofalwyr, wedi tueddu i wrthwynebu'r cynnig i gau'r gronfa. Eu prif bryder oedd na fyddai awdurdodau lleol yn cynnal eu pecynnau gofal presennol. Dywedodd lleiafrif sylweddol y byddent yn fodlon pe bai awdurdodau lleol yn cymryd rheolaeth dros y gyllideb os gellid sicrhau y byddai eu pecynnau gofal yn aros yr un fath. Mynegodd defnyddwyr hefyd ystod eang o faterion eraill yn cynnwys y gwasanaeth cwsmeriaid da a ddarparwyd gan y Gronfa, lefel yr hyblygrwydd a oedd ganddynt o ran defnyddio eu harian ac effaith bosibl y newid ar ofalwyr.
5. Mynegodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u cyrff cynrychioliadol gefnogaeth gref i'r cynnig mewn egwyddor. Roedd llawer yn teimlo bod y system bresennol yn annheg ac yn gymhleth yn ddiangen. Cydnabuwyd hefyd y newidiadau i'r system gofal a chymorth brif ffrwd sydd wedi rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, ac wedi cwestiynu effeithiolrwydd cynnal y Gronfa ochr yn ochr â'r system gofal a chymorth brif ffrwd. Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n gryf ar yr angen i drosglwyddo digon o arian er mwyn sicrhau proses drosglwyddo ddiraffferth. Cafwyd pwyslais cryf ar yr angen i drosglwyddo arian yn seiliedig ar batrymau gwario presennol, sy'n adlewyrchu'r amrywiad yn y modd y caiff arian y Gronfa ei ddefnyddio ledled y DU.
6. Roedd ymatebion sefydliadau â diddordeb yn cwmpasu ystod eang o safbwyntiau. Dywedodd rhai sefydliadau cenedlaethol mawr y dylid ar ryw bwynt integreiddio'r Gronfa i mewn i'r system gofal a chymorth brif ffrwd. Fodd bynnag, cafwyd pryderon ynghylch amseru'r broses drosglwyddo a lefel y diogelwch a fyddai ar gael i ddefnyddwyr. Roedd sefydliadau llai a mwy rhanbarthol neu leol yn dueddol o wrthwynebu'r cynnig i gau'r gronfa; a'u prif wrthwynebiad oedd y gallai pecynnau gofal defnyddwyr gael eu lleihau.

Ymateb y Llywodraeth

7. Rydym yn falch o fod wedi cael mewnbwn gan ystod mor eang o sefydliadau ac unigolion, ac rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus. Mae'n amlwg bod y cynnig i gau'r Gronfa yn achosi pryder i ddefnyddwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydym yn deall hyn ac yn gwerthfawrogi'r rôl bwysig y mae'r Gronfa wedi ei chwarae wrth gefnogi defnyddwyr, gan eu galluogi i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y ffordd y maent yn byw eu bywydau.
8. Nododd yr ymgynghoriad yr heriau a'r cymhlethdodau o ran parhau i weithredu ffynhonnell ar wahân o arian ar gyfer y grŵp hwn o bobl anabl. Mae'n amlwg o'r ymatebion a gawsom nad yw arian y Gronfa bob amser wedi'i ddefnyddio mewn modd cyson ledled y wlad. Mae awdurdodau lleol wedi codi amrywiaeth o bryderon am y sefyllfa bresennol, yn arbennig lle mae pobl ag anghenion tebyg yn cael eu trin yn wahanol oherwydd y rhyngweithio â meini prawf cymhwysedd y Gronfa. Mae hyn wedi eu rhoi mewn sefyllfa anodd iawn o ran bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i gefnogi pob person anabl mewn ffordd gyson a theg.
9. Wrth ystyried dyfodol y Gronfa, mae'r Llywodraeth wedi myfyrio'n ofalus iawn ar anghenion a phryderon defnyddwyr presennol, ond bu'n rhaid iddi hefyd ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â pharhau i weinyddu arian y Gronfa drwy'r trefniadau presennol am gyfnod ychwanegol o amser. Ar ôl ystyried yr holl faterion hyn yn ofalus, credwn mai cau'r Gronfa yn 2015, gan ddatganoli arian i lywodraeth leol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban yw'r ffordd orau ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa yn gweinyddu arian a ddarperir iddi gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon. Mater iddi hi fydd penderfynu sut y caiff defnyddwyr presennol y Gronfa yng Ngogledd Iwerddon eu cefnogi ar ôl 2015.

8 Pennod 1 Crynodeb gweithredol

10. Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad am y ffordd y dylid datganoli arian i awdurdodau lleol a'r gweinyddiaethau datganoledig a chanddynt pe bai'r Gronfa yn cael ei chau, ac roedd ganddynt farn gref ar y mater. Oherwydd yr amrywiad daearyddol yn nifer y bobl sy'n cael arian gan y Gronfa ledled y DU, a rhwng y rhannau gwahanol o'r DU, credwn fod dadl gref dros ddyrannu arian yn unol â phatrymau gwario presennol a byddwn yn cyflwyno cynigion i ddyrannu arian ar y sail hon.
11. Gofynnodd llawer o ddefnyddwyr, pe bai arian yn cael ei ddatganoli i lywodraeth leol, iddo gael ei neilltuo i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol y Gronfa. Mae sefyllfa'r llywodraeth o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli eu harian yn glir. Mae'r broses o neilltuo arian yn atal awdurdodau lleol rhag diwallu anghenion lleol mewn ffordd hyblyg ac ymatebol. Gall anghenion defnyddwyr y Gronfa newid dros amser ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal pob person anabl mewn ffordd gyson. Deallwn pan gânt eu hasesu, y gellir lleihau pecynnau gofal defnyddwyr presennol y Gronfa. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dewis rheoli unrhyw newidiadau i becynnau gofal mewn ffyrdd gwahanol, gan ddarparu rhywfaint o ddiogelwch yn ystod y cyfnod pontio lle bo angen, ond mae angen ystyried hyn fesul achos ar ôl cynnal asesiad manwl o anghenion y defnyddiwr.
12. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod angen sicrhau y caiff y broses o gau'r gronfa a throsglwyddo defnyddwyr i system gymorth awdurdod lleol ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi unrhyw darfu diangen ar fywydau'r defnyddwyr. Bydd y Gronfa'n cyflwyno rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn fuan a bydd yn cyhoeddi cynllun pontio drafft ar ddechrau 2013. Dros dymor Llywodraeth 2014, bydd y Gronfa a'r sector gofal cymdeithasol yn Lloegr yn cyd-gynhyrchu Cod Ymarfer a fydd yn nodi canllawiau ar y ffordd orau y gall awdurdodau lleol gynorthwyo defnyddwyr drwy'r broses bontio. Fel y nodwyd yn glir, bydd y Gronfa yn parhau i gynnal y cymorth presennol i ddefnyddwyr hyd at 2015.

ISBN 978-1-78153-325-3

(h) Hawlfraint y Goron 2012

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith
a Phensiynau

Rhagfyr 2012

www.dwp.gov.uk/cymraeg